Atodiad F – Adroddiad Blynyddol

At Weinidogion Cymru,

**Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 - Dyletswyddau Adrodd**

Yn unol â'r dyletswyddau o dan Adran 7 (3) a 10 (2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, fe welwch isod adroddiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer 2023 - 2024.

| | |
|---|---|
| Y camau a gymerwyd i hyrwyddo'r defnydd o lwybrau teithio llesol. | Yn ystod 2023 - 2024, mae'r Cyngor wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau canlynol:<br><br>• Gweithredu rhaglen barhaus o waith i adnewyddu/gwella rhannau o droedffyrdd ledled y Fwrdeistref Sirol gan gynnwys gosod wynebau newydd, darparu ymylon palmant isel, rheiliau newydd a gwaith lledaenu.<br><br>• Ymgymryd â'r gwaith o ddileu rhwystrau, mewn lleoliadau llwybrau teithio llesol dethol ac ar sail achos wrth achos, yn dilyn asesiad o feini prawf ym mhob lleoliad.<br><br>• Parhau â'u hymrwymiad mewn mentrau i hyrwyddo Rhondda Cynon Taf yn atyniad i dwristiaid ar gyfer cerdded a beicio.<br><br>• Darparu hyfforddiant beiciau cydbwyso am ddim i 470 o ddisgyblion rhwng 3 a 5 oed er mwyn dysgu sut i ddechrau reidio beic a dod yn fwy hyderus.<br><br>• Sicrhau bod tudalennau gwefan y Cyngor ar deithio llesol yn cael eu diweddaru. |

| | |
|---|---|
| | • Parhau â'r cynllun Beicio i'r Gwaith ar y cyd â Halfords yn rhan o'i Gynllun Buddion ar gyfer Staff.<br><br>• Darparu hyfforddiant beicio o Safonau Cenedlaethol i 617 o ddisgyblion yn 2023 - 2024 drwy roi'r hyfforddiant angenrheidiol i feicwyr ifainc er mwyn iddyn nhw fod yn fwy diogel a mwy cymwys.<br><br>• Darparu hyfforddiant Kerbcraft/Cerddwyr Ifainc i 1,135 o ddisgyblion yn 2023 - 2024 i roi sgiliau ac ymwybyddiaeth o faterion diogelwch ar y ffordd i ddisgyblion ifainc er mwyn iddyn nhw fod yn gerddwyr mwy diogel.<br><br>• Cynnal ymgynghoriad er mwyn llywio a bwrw ymlaen â cham nesaf adeiladu llwybr teithio llesol ym mhen uchaf Cwm Rhondda Fach. |
| Y camau a gymerwyd i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau cysylltiedig | Mae'r wybodaeth ganlynol yn cyfeirio at 2023 - 2024.<br><br>• Datblygu astudiaethau i ymchwilio i'r gwaith cydweddu ac adeiladu sy'n bosibl o ran llwybrau teithio llesol newydd yng nghanol trefi Aberdâr a Phontypridd ac i/o'r cymunedau cyfagos. Bydd teithio llesol yn chwarae rhan allweddol yn natblygiad Cynlluniau Creu Lleoedd y Cyngor ar gyfer canol ei brif drefi. Mae'r cynlluniau yma'n cynnwys gwell cysylltedd i gyfleusterau, pyrth ac ardaloedd pwysig.<br><br>• Darparu Cynlluniau 'Llwybrau Diogel mewn Cymunedau' |

| | |
|---|---|
| | pellach at ysgolion cynradd ym Mhentre'r Eglwys a Hirwaun.<br><br>• Gwneud nifer o welliannau i'r briffordd sydd o fudd i feicwyr (yn ogystal â gyrwyr), megis gwaith trin wyneb y ffordd mewn gwahanol leoliadau ledled Rhondda Cynon Taf, adeiladu lonydd newydd ar gyffyrdd allweddol, adnewyddu goleuadau traffig ac atgyweirio gwaith maen i bontydd afonydd a waliau cynnal.<br><br>• Cyflwyno nifer o welliannau, atgyweiriadau a/neu waith amnewid pontydd troed (megis Parc Gelligaled, Ystrad, y Bont Dramffordd Haearn, Trecynon, pont y rheilffordd, Llanharan ac ar Stryd y Lofa, Trehafod. Hefyd, adeiladu llwybrau troed, waliau cynnal a mannau croesi er mwyn gwella diogelwch i gerddwyr.<br><br>• Amnewid Pont Castle Inn yn Nhrefforest a phont droed Tyn-y-bryn yn Nhonyrefail, sy'n cael eu defnyddio gan gerddwyr a beicwyr, yn dilyn difrod tywydd eithafol. Mae'r strwythurau newydd yn cydymffurfio â'r safonau teithio llesol cyfredol.<br><br>• Gosod croesfan newydd i gerddwyr â goleuadau traffig yn Llanharan.<br><br>• Cynnal gwaith ymchwilio dechreuol ar Lwybr Taith Cwm Cynon (ger Pen-y-waun) er mwyn llywio gwaith cynllun atgyweirio tirlithriad yn y dyfodol.<br><br>• Cyflawni gwelliannau amrywiol, megis gwaith ailwynebu a gosod arwyddion newydd ar |

| | |
|---|---|
| | Lwybr Teithio Llesol Lady Windsor rhwng Ynys-y-bwl a Phontypridd. |
| Y costau sydd ynghlwm â llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig a gynhaliwyd yn y flwyddyn ariannol lawn flaenorol | Dyma'r prif waith a chostau:<br><br>• £391.5 mil - Cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau Hirwaun. Mae'r cynllun yma wedi cyflwyno mesurau arafu traffig (gan gynnwys system camera cyflymder cyfartalog), gwella cyfleusterau i gerddwyr (gan gynnwys palmant ag ymyl isel) ac adeiladu llwybrau troed newydd. Dyma flwyddyn gyntaf cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau dwy flynedd o hyd.<br><br>• £425 mil - Cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau Pentre'r Eglwys. Roedd y cynllun yma wedi gwella sawl llwybr cerdded allweddol sy'n cael eu defnyddio gan bobl er mwyn cael mynediad at gyfleusterau lleol gyda phalmant botymog, torri llystyfiant ac uwchraddio cyfleusterau i gerddwyr mewn sawl cyffordd allweddol yn y pentref.<br><br>• £2.2 filiwn - dechrau ar waith i ddarparu llwybr teithio llesol newydd yng Nghwm Rhondda Fach rhwng Maerdy a Tylorstown - er mwyn ffurfio llwybr teithiol parhaus ar hyd Cwm Rhondda Fach i ardal Porth yn y pen draw. Roedd y cam cychwynnol yn cynnwys uwchraddio'r llwybr presennol yn ardal Maerdy i safon llwybr teithio llesol, gyda Cham 2 y cynllun yma yn cynnwys adeiladu llwybr newydd i gyfeiriad y de ar hyd yr hen linell rheilffordd tuag at ardal Glynrhedynog. |

| | |
|---|---|
| | • £5.160 miliwn - darparu sawl cynllun ailwynebu ffyrdd ledled y Fwrdeistref Sirol.<br><br>• £790 mil - darparu sawl cynllun gwella llwybrau cerdded ledled y Fwrdeistref Sirol.<br><br>• £540 mil - darparu gwaith adnewyddu goleuadau stryd a goleuadau traffig ledled y Fwrdeistref Sirol.<br><br>• £920 mil - y cyllid yma wedi sicrhau cynnydd y cynlluniau canlynol sydd wedi'u datblygu i raddau gwahanol: adeiladu llwybr teithio llesol newydd yng Nghwm Rhondda Fach - camau 3, 4 a 5, gwelliannau amrywiol i'r llwybr teithio llesol, adeiladu rhan goll o Lwybr Taith Cwm Cynon yn ardal Cwm-bach, adlinio rhwng Llwybr Taith Taf rhwng Pont Nant Cae Dudwg Bridge a Thrallwn er mwyn gwella cydnerthedd, Gwelliannau i Ganol Trefi Aberdâr a Phontypridd, adeiladu llwybrau teithiau llesol newydd rhwng Treorci a Threherbert a rhwng Llanharan a Thonysguboriau, adlinio Llwybr Taith Taf yn ardal Trallwn er mwyn cynorthwyo defnyddwyr, adeiladu cyswllt teithio llesol Llwybr Taith Cwm Cynon ar hyd Ffordd Abertawe, Hirwaun ac adeiladu cysylltiadau teithio llesol newydd at Lwybr Cymuned Pentre'r Eglwys. |

Yn ogystal â'r uchod, mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi trosolwg o'r isadeiledd sydd wedi'i roi ar waith yn ystod y flwyddyn flaenorol:

| | |
|---|---|
| Gwariant dangosol ar gyfer llwybrau a chyfleusterau teithio | Lle bo modd, mae'r Cyngor yn ceisio cael cyfraniadau gan ddatblygwyr, yn |

| | |
|---|---|
| llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig wedi'u hariannu'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan drydydd parti. | rhan o Gytundeb A106, i ariannu gwelliannau i gyfleusterau teithio llesol yng nghyffiniau eu datblygiad newydd. |
| Hyd y llwybrau newydd:<br><br>- Cerdded<br>- Beicio<br>- Mannau i Bawb | <br><br>0.04 cilometr<br>0.89 cilometr<br>2.70 cilometr |
| Hyd y llwybrau sydd wedi'u gwella:<br><br>- Cerdded<br>- Beicio<br>- Mannau i Bawb | <br><br><br>0.73 cilometr<br>0.00 cilometr<br>1.05 cilometr |
| Cyfleusterau teithio llesol newydd a gwell | 2 stand storio beiciau newydd wedi'u gosod yn ardal Ton-teg. |

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol):


Mae Ardal Gwella Busnes Aberdâr wedi cymeradwyo Strategaeth newydd y Cyngor ar gyfer Canol Tref Aberdâr. Un o amcanion y Strategaeth yma yw gwella a hyrwyddo rhagor o deithiau cerdded a beicio i / o ganol y dref.

Cafodd rhan o Gam 8 Ras Beiciau Taith Prydain 2023 ei gynnal yn ardal Rhondda Cynon Taf yn ystod yr haf.

Gan gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru, mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad o Gynllun arfaethedig Ffordd Gyswllt Llanharan. Mae wedi sicrhau bod cynaliadwyedd (megis mesurau teithio llesol a blaenoriaethu bysiau mwy amlwg) yn cael ei ymgorffori yn ail-ddyluniad y cynllun.

Rydw i'n cadarnhau y bydd yr adroddiad yma'n cael ei gyhoeddi ar-lein, yn unol â Chanllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol (fersiwn 2021).

Llofnod y Prif Weithredwr:



Enw'r Prif Weithredwr: Paul Mee

Dyddiad cyflwyno i Weinidogion Cymru: 08/11/2024